



Papur Gwybodaeth Manwl

Datganiad yr Hydref 2016

Heddiw cyflwynodd Philip Hammond ei Ddatganiad Hydref cyntaf fel Canghellor y Trysorlys, gan roi diweddariad ar gyflwr economi'r Deyrnas Unedig yn dilyn y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd ac yn gwneud nifer o ymrwymadau polisi newydd.

Hawliodd y Canghellor bod economi'r Deyrnas Unedig wedi 'bownsio'n ôl' o'r dirwasgiad cynharach ac y disgwylir iddi fod yr economi ddatblygedig sy'n tyfu gyflymaf yn y byd eleni. Yn dilyn y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd, amlinellodd gynlluniau i drin nifer o wendidau economaidd sylfaenol, yn cynnwys cynhyrchiant isel a'r argyfwng tai.

Rhagwelir y bydd twf economaidd yn uwch na'r rhagolygon yn 2016, ar 2.1%, ond rhagwelir twf gwannach yn 2017 oherwydd ansicrwydd am Brexit.

Mae penawdau allweddol cyhoeddiad y Canghellor fydd yn effeithio ar gymdeithasau tai yn cynnwys:

- 'Cronfa Genedlaethol Buddsoddi mewn Cynhyrchiant' yn cynnwys £1.4bn o gyllid i adeiladu 40,000 o gartrefi newydd yn Lloegr, gyda mwy o hyblygrwydd ar grant
- Gwahardd asiantau gosod rhag codi ffioedd ar denantiaid yn Lloegr
- Gostwng cyfradd tapr Credyd Cynhwysol o 65% i 63%
- £400m mewn cyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer Llywodraeth Cymru
- Cap llesiant cyffredinol newydd ar gyfer Llywodraeth y Deyrnas Unedig
- Dim mwy o doriadau llesiant yn ystod y Senedd hon



Manylion ar gyhoeddiadau cyllid

1. Cyllid ar gyfer cartrefi fforddiadwy

Bydd 'Cronfa Genedlaethol Buddsoddi mewn Cynhyrchiant' (NPIF) Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhoi £23bn o fuddsoddiad seilwaith rhwng 2017-18 a 2021-22. Targedir y gronfa hon ar bedwar maes strategol: tai, trafndiaeth, cyfathrebu digidol ac ymchwil a datblygu.

Cyhoeddodd y llywodraeth y bydd yn llacio cyfyngiadau ar gyllid grant yn Lloegr i alluogi darparwyr i gyflenwi cymysgedd o gartrefi ar rent fforddiadwy a pherchnogaeth cartrefi cost isel. Bydd yr NPIF yn darparu £1.4bn ychwanegol i ddechrau ar y gwaith o adeiladu 40,000 o dai newydd erbyn 2020-21.

Effaith: Mae'r NPIF, cyllid ychwanegol ar gyfer tai a llacio cyfyngiadau ar grantiau yn newidiadau ar gyfer Lloegr yn unig. Fodd bynnag, mae'r gwariant o £1.4bn yn Lloegr yn gyfwerth â £70m o gyllid canlyniadol Barnett yng Nghymru - tua'r un faint â'r gostyngiad mewn gwariant cyfalaf adfywio a welwyd yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Mae CHC yn galw ar Lywodraeth Cymru i fuddsoddi'r arian hwn mewn cynlluniau adfywio dan arweiniad tai fel rhan o raglen i olyn Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

2. Cronfa Seilwaith Tai

Cyhoeddodd y Canghellor Gronfa Seilwaith Tai newydd o £2.3bn; caiff hyn hefyd ei chyllido gan yr NPIF. Caiff ei dyrannu i awdurdodau lleol yn Lloegr ar sail gystadleuol a'i nod yw darparu seilwaith wedi'i dargedu i ddatgloi adeiladu tai preifat mewn ardaloedd lle mae angen tai ar ei uchaf.

Effaith: Mae'r Llywodraeth yn disgwyl y bydd y seilwaith newydd yn cyflenwi hyd at 100,000 o gartrefi newydd yn Lloegr.

3. Gostyngiad yng nghyfradd tapr Credyd Cynhwysol

Caiff y gyfradd tapr - y gyfradd y caiff budd-daliadau eu gostwng yn seiliedig ar incwm hawliwr - ei gostwng o'r gyfradd bresennol o 65% i 63% yn Ebrill 2017. Bydd hyn yn galluogi unigolion i gadw mwy o'r arian y maent yn ei ennill pan fyddant mewn gwaith, a dywed y llywodraeth y bydd yn cryfhau cymhellion i unigolion weithio.

Effaith: Mae Llywodraeth y DU yn amcangyfrif y bydd 3 miliwn o deuluoedd ar draws y Deyrnas Unedig yn derbyn mwy o incwm fel canlyniad i'r newid yma.



Fodd bynnag, gostyngiad cynnil i'r gyfradd tapr yw hyn o gymharu â'r toriadau blaenorol i'r lwfans gwaith.

4. Cadarnhau newidiadau i'r Lwfans Tai Lleol

Yn dilyn y cyhoeddiad gan Ysgrifennydd Gwladol a Phensiynau yn gynharach yr wythnos hon, cadarnhaodd Datganiad yr Hydref y caiff y cap ar Lwfans Tai Lleol ei ohirio hyd 2019, ac o hynny ymlaen caiff ei weithredu i BOB hawliad newydd a hawliad presennol dan y Credyd Cynhwysol, ac i'r rhai sy'n hawlio Budd-dal Tai y gwnaeth eu tenantiaethau ddechrau neu a adnewyddwyd o fis Ebrill 2016 ymlaen.

Effaith: Mae CHC yn gweithio gyda'n haelodau i asesu'n llawn beth fydd effaith y newid hwn ar denantiaid ein haelodau. Rydym yn bryderus na fydd llawer o denantiaid yn derbyn digon o arian i dalu eu taliad rhent yn llawn, a byddwn yn cyflwyno'r achos dros drefniadau trosiannol digonol.

Mae gennym hefyd bryderon am y ffordd y caiff cyfraddau LHA eu cyfrif a byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn wirioneddol adlewyrchu'r farchnad leol.

Wrth ochr hyn, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar gronfa atodol ddatganoledig newydd ar gyfer tai â chymorth i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion tenantiaid sy'n derbyn cymorth.

5. Cap newydd ar gyfanswm llesiant ar gyfer Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2014 y byddai'n cyflwyno cap llesiant blynyddol i gryfhau rheolaeth y llywodraeth ar wario am lesiant a chynyddu atebolrwydd Seneddol am wariant ar lesiant. Yn dilyn nifer o newidiadau i wariant ar lesiant mewn blynyddoedd diweddar, mae'r Llywodraeth wedi ailasesu lefel y cap ac mae'n cyflwyno cap llesiant tymor canol newydd.

Mae'r cap yn seiliedig ar ragolygon presennol y Swyddfa dros Gyfrifoldeb Cyllidebol (OBR), a bydd yn weithredol i wariant llesiant yn 2021-22. I drin amrywiadau na fedrir eu hosgoi mewn gwariant ar lesiant, bydd gorswm yn cynyddu i 3% uwchben y cap; dim ond os yw'r gwariant yn fwy na'r cap ynghyd â'r gorswm ar ddiwedd yr asesiad y caiff y cap ei dorri.

Ymrwymodd y Canghellor na fyddai unrhyw doriadau pellach i lesiant yn y Senedd hon (h.y. hyd at 2020).



Effaith: Bwriad y cap newydd yw rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Llywodraeth ar wariant llesiant. Ynghyd ag ymrwymiad na fydd unrhyw doriadau pellach i lesiant yn ystod y Senedd hon, mae'n debygol o olygu fod y Llywodraeth yn llai tebygol o wneud ymatebion tymor-byr mewn ymateb i ragolygon llesiant.

Bydd y cap newydd yn rhan o siarter diwygiedig y Canghellor ar gyfer cyfrifoldeb cyllidebol, ac er mai dim ond yn ffurfiol y bydd yr OBR yn asesu gwariant yn erbyn y cap yn 2021-22, bydd y Llywodraeth yn parhau i asesu cynnydd yn erbyn y cap ar sail interim yn flynyddol.

6. Cyllid canlyniadol ar gyfer y cenhedloedd datganoledig

Bydd cynnydd mewn buddsoddiad seilwaith yn arwain at i fwy o gyllid cyfalaf fod ar gael i bob un o'r gweinyddiaethau datganoledig drwy Fformiwla Barnett.

Effaith: Dros y pum mlynedd nesaf, bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn £400m pellach mewn cyllid, tra bydd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn cael £250m a Llywodraeth yr Alban yn cael £800m. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn derbyn £35.8m ychwanegol mewn cyllid refeniw.

7. Cynyddu'r 'Cyflog Byw Cenedlaethol'

Bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol yn codi i £7.50 yr awr o fis Ebrill 2017. Mae hyn yn gynydd o'r gyfradd bresennol o £7.20 yr awr, ond yn sylweddol is na Chyflog Byw 'swyddogol' y Comisiwn Cyflog Byw o £8.45 yr awr (£9.75 yr awr yn Llundain).

Effaith: Mae'r cynnydd yn is na'r disgwyl, gyda rhagolygon yn gynharach yn y flwyddyn yn disgwyl cynnydd i £7.64 yr awr.

8. Cyhoeddiadau eraill o ddiddordeb

- Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyllido cynllun peilot rhanbarthol graddfa fawr o'r cynllun Hawl i Brynu gwirfoddol, gan roi cyfle i 3,000 o denantiaid i brynu eu cartref cymdeithas tai yn Lloegr.
- Caiff asiantau gosod eu gwahardd rhag codi ffioedd asiantaeth ar denantiaid yn Lloegr 'cyn gynted ag sy'n bosibl'.
- Cadarnhad o gyhoeddiad cynharach Llywodraeth y Deyrnas Unedig o gronfa £1.7bn i gyflymu adeiladu tai ar dir sector cyhoeddus.
- Bydd y lwfans personol ar dreth incwm yn cynyddu i £12,500 erbyn diwedd y Senedd. Bydd yn codi yn ôl chwyddiant ar ôl hynny, yn hytrach na gyda chyflogau fel y cyhoeddwyd yn flaenorol.